

# Canllawiau ar geisiadau a gynorthwyr yng Nghymru a Lloegr

1.1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ynglŷn â'r broses gofrestru etholiadol ar gyfer pobl sydd am resymau anallu corfforol neu analluedd meddyliol o bosibl angen cymorth er mwyn cofrestru. Mae'r canllawiau yn cynnwys:

- yr hyn y gall Swyddog Cofrestru Etholiadol a'i staff (gan gynnwys canfaswyr) ei wneud a beth na chânt ei wneud i helpu ymgeisydd
- yr hyn y gall un person ei wneud i gynorthwyo un arall i wneud cais
- yr hyn y gall rhywun sydd â phŵer atwrnai ei wneud a beth na chânt ei wneud ar ran ymgeisydd
- sut i olrhain dim ymateb gan unigolion nad ydynt yn gallu gwneud 'datganiad o wirionedd'

1.2 Mae hefyd yn cynnwys rhai enghreifftiau o sut y gall y canllawiau hyn gael eu defnyddio'n ymarferol.

## Egwyddorion

- Dylai pawb sy'n gymwys gael eu cofrestru heb ystyried unrhyw salwch neu anabledd a allai fod ganddynt<sup>1</sup>
- Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr arbenigedd i benderfynu a yw rhywun yn meddu ar alluedd meddyliol neu beidio
- Dylid cael rhagdybiaeth bod person yn meddu ar alluedd<sup>2</sup>
- Dim ond yr ymgeisydd, neu berson y maent wedi rhoi pŵer atwrnai iddo, all wneud y datganiad sy'n ofynnol fel rhan o gais i gofrestru

## Yr hyn y gall Swyddog Cofrestru Etholiadol a'u staff (gan gynnwys canfaswyr) ei wneud a beth na chânt ei wneud i helpu ymgeisydd

1.3 Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddyletswydd i sicrhau bod cofrestru'n hygyrch i bawb. Ceir darpariaeth benodol sy'n galluogi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol (neu rywun a awdurdodwyd ganddynt), i gymryd rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth sydd ei hangen mewn cais yn bersonol neu dros y ffôn, os ydynt yn

---

<sup>1</sup> Diddymodd adran 73 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 y cyfyngiadau cyfraith gwlad bod person yn destun anallu cyfreithiol i bleidleisio, ac felly i gofrestru, oherwydd eu galluedd meddyliol.

<sup>2</sup> Adran 1 Deddf Galluedd Meddyliol 2005

dewis gwneud hynny, ac yna trosglwyddo'r wybodaeth i'r cais ysgrifenedig (naill ai ar ffurflen gais ar bapur neu drwy'r system ar-lein).<sup>3</sup>

1.4 Hyd yn oed os nad ydynt yn gallu darparu cofrestru dros y ffôn a/neu gofrestru personol i bob ymgeisydd, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ganiatáu i geisiadau gael eu gwneud drwy'r sianelau hyn o dan amgylchiadau penodol, megis i gynorthwyo ymgeiswyr sydd ag anableddau, er mwyn bodloni eu rhwymedigaethau cydraddoldeb.

1.5 Yn ogystal, gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried defnyddio staff hyfforddedig (gan gynnwys canfaswyr) i helpu'r rhai a allai fod angen cymorth i gwblhau'r cais neu i ddeall y broses gofrestru. Mae [Rhan 2: Y Fframwaith Cofrestru](#) ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadolyn cynnwys canllawiau ar hyfforddi staff craidd a chanfaswyr.

### Trosglwyddo gwybodaeth i gais ysgrifenedig

1.6 Lle mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn caniatáu i'r wybodaeth sydd ei hangen mewn cais gael ei darparu yn bersonol neu dros y ffôn, **rhaid** i'r ymgeisydd gael gwybodaeth am y gofrestr wedi'i golygu, a **rhaid** i'r datganiad o wirionedd gael ei wneud gan yr ymgeisydd. Fodd bynnag, *gall* hyn gael ei roi ar lafar.

1.7 Er enghraifft, os yr awdurdodir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, gallai canfasiwr gymryd peth (neu'r cyfan) o'r wybodaeth ar lafar gan ymgeisydd (gan gynnwys y datganiad o wirionedd) - ar yr amod y rhoddwyd y wybodaeth ofynnol am y gofrestr a gafodd ei golygu i'r ymgeisydd - ac yna rhaid i'r canfasiwr drosglwyddo'r wybodaeth honno i'r cais ysgrifenedig. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod canfaswyr sydd wedi'u hawdurdodi i dderbyn gwybodaeth yn y modd hwn yn cael eu hyfforddi'n briodol.

1.8 Yn yr un modd, gall staff ffôn a gyflogir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn uniongyrchol (e.e. yn y swyddfa cofrestru etholiadol) neu'n anuniongyrchol (e.e. mewn canolfan alwadau cyngor) gael eu hawdurdodi gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol i gymryd gwybodaeth gan ymgeiswyr ar lafar, a throsglwyddo hyn i gais ysgrifenedig.

## Yr hyn y gall un person ei wneud i gynorthwyo un arall i wneud cais

1.9 Nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth i atal person rhag **cynorthwyo** un arall i gwblhau cais - boed ar-lein neu ar bapur. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ymdrin mewn unrhyw ffordd benodol â p'un a sut y gall rhywun gael ei gynorthwyo.

1.10 Fodd bynnag, **rhaid** i'r ymgeisydd ei hun gadarnhau bod y manylion a roddwyd ar y cais yn wir, h.y. rhaid iddynt fod yr un sy'n gwneud y datganiad.

1.11 Er enghraifft, os yw etholwr ag anabledd corfforol sy'n golygu na allant ysgrifennu neu deipio, gall person eu helpu drwy wneud y teipio ar eu rhan, ar yr

---

<sup>3</sup> Rheoliad 26(8) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (fel y'u diwygiwyd) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'RPR 2001').

amod bod yr etholwr yn bresennol ac yn gallu cyfathrebu bod y wybodaeth a roddwyd ar y cais yn wir. Yn achos ffurflen gais ar bapur, byddai'n rhaid i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflen eu hunain, neu wneud eu marc arferol eu hunain; fodd bynnag, lle nad ydynt yn gallu gwneud hyn, gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol dderbyn datganiad a wnaed mewn ffordd arall (er enghraifft dros y ffôn neu'n bersonol) cyn belled â'u bod yn fodlon bod y datganiad yn cael ei wneud gan yr ymgeisydd ac yn ddilys a gwir.

1.12 Efallai y gofynnir i staff gofal cartref neu staff cartrefi gofal gynorthwyo'r rhai sydd dan eu gofal i wneud ceisiadau cofrestru. Dylech ystyried anfon canllawiau a/neu wneud ymweliadau er mwyn sicrhau bod y staff gofal cartref a staff cartrefi gofal yn ymwybodol, er y gallant ddarparu cymorth, bod rhaid i'r datganiad gael ei wneud gan yr etholwr, neu gan berson sydd â phŵer atwrnai priodol (gweler isod).<sup>4</sup>

## Yr hyn y gall rhywun sydd â phŵer atwrnai ei wneud a beth na chânt ei wneud ar ran ymgeisydd

1.13 Mae pŵer atwrnai parhaol neu barhaus yn broses lle gall penderfyniadau ar faterion ariannol a rhai materion eraill gael eu gwneud ar ran person arall.

1.14 Fodd bynnag, ni all penderfyniadau ar bleidleisio gael eu gwneud ar ran person arall. Mae adran 29(1) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn nodi: "Nid oes unrhyw beth yn y Ddeddf hon yn caniatáu i benderfyniad ar bleidleisio mewn etholiad i unrhyw swydd gyhoeddus, neu mewn refferendwm, gael ei wneud ar ran person."

1.15 Nid yw'r penderfyniad i wneud cais i gofrestru yn benderfyniad ar bleidleisio mewn etholiad neu refferendwm. Mae hyn oherwydd bod cofrestru'n gam gweinyddol sy'n galluogi person i arfer eu hawl i bleidleisio; nid yw'n benderfyniad ar bleidleisio.

1.16 Mae'n dilyn y gall person sydd â phŵer atwrnai priodol lenwi cais cofrestru a gwneud y datganiad o wirionedd ar ran y person analluog.

1.17 Yn yr un modd, nid yw eithrio o'r gofrestr agored yn benderfyniad ar bleidleisio. Felly, gall person sydd â phŵer atwrnai hefyd newid dewis cofrestr agored y person analluog.

1.18 Bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn fodlon bod person sy'n gwneud datganiad ar ran etholwr gyda phŵer atwrnai ar gyfer yr etholwr hwnnw a bod y pŵer atwrnai yn ddigon eang i gynnwys gwneud cais i gofrestru. Gellir gofyn am gopi ardystiedig os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ystyried bod hynny'n briodol.

## Y Gwahoddiad i Gofrestru a phrosesau dilynol

### Gwahoddiad i gofrestru

---

<sup>4</sup> Mae'r Comisiwn hefyd wedi cynhyrchu taflen ffeithiau ar gyfer staff cartrefi gofal sy'n adlewyrchu'r canllawiau hyn ar geisiadau a gynorthwyr.

1.19 Unwaith y bydd etholwr posibl wedi cael ei adnabod, rhaid iddynt gael Gwahoddiad i Gofrestru a ffurflen gais i gofrestru o fewn 28 diwrnod o gael eu hadnabod.<sup>5</sup>

1.20 Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi, os nad yw person wedi gwneud cais i gofrestru o fewn amser rhesymol i dderbyn y gwahoddiad, yna rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi ail wahoddiad iddynt.<sup>6</sup> Mae'r un peth yn berthnasol i drydydd gwahoddiad.<sup>7</sup> Hefyd, mae'n rhaid gwneud ymweliad personol os na chafwyd unrhyw ymateb i'r trydydd gwahoddiad ac os nad oes ymweliad personol eisoes wedi'i wneud.<sup>8</sup> Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd i gynnal ymholiadau o dŷ i dŷ drwy gydol y flwyddyn.<sup>9</sup>

1.21 Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi y gall Swyddog Cofrestru Etholiadol benderfynu peidio â rhoi nodyn atgoffa i Wahoddiadau i Gofrestru na chynnal ymweliad personol os ydynt yn fodlon nad yw'r person â hawl i gael ei gofrestru, neu, wedi ei fod wedi'i gofrestru mewn cyfeiriad gwahanol.<sup>10</sup> Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi beth ddylai Swyddog Cofrestru Etholiadol ei wneud os ydynt yn fodlon nad oes gan rywun y galluedd meddyliol i wneud y datganiad sy'n ofynnol fel rhan o'u cais i gofrestru.

### **Gofyniad i Gofrestru**

1.22 Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddisgresiwn p'un a ddylid **anfon** gofyniad i gofrestru os nad oes ymateb i'r trydydd Gwahoddiad i Gofrestru.<sup>11</sup> Os ydynt wedi derbyn gwybodaeth mai'r rheswm pam nad yw person wedi ymateb i'r Gwahoddiad i Gofrestru yw oherwydd eu bod heb y galluedd meddyliol i gwblhau'r datganiad o wirionedd, gallai hyn fod yn rheswm dros beidio â bwrw ymlaen â'r gofyniad i gofrestru. Fodd bynnag, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn fodlon bod y person wirioneddol yn brin o'r galluedd sydd ei angen i wneud y datganiad o wirionedd.

**1.23** Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd yr hawl i **ddiddymu** gofyniad i gofrestru os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.<sup>12</sup> 1.1 Noda paragraff 3.30 o Ran 4:[Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn](#). Er enghraifft, efallai y byddwch yn ystyried ei bod yn briodol dileu'r hysbysiad gofyniad os yw person yn sâl ac, o ganlyniad, na fydd yn gallu gwneud datganiad o wirionedd yn y dyfodol rhagweladwy'. Unwaith eto, byddai angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn fodlon bod y person heb y galluedd angenrheidiol i wneud y datganiad o wirionedd cyn penderfynu diddymu'r gofyniad i gofrestru am y rheswm hwn. Byddai angen gwneud penderfyniad ar sail achos wrth achos.

---

<sup>5</sup> Adran 9E(1), RPA 1983 a Rheoliad 32ZC, RPR 2001.

<sup>6</sup> Rheoliad 32ZD(1), RPR 2001.

<sup>7</sup> Rheoliad 32ZD(2), RPR 2001.

<sup>8</sup> Rheoliad 32ZD(3), RPR 2001.

<sup>9</sup> Adran 9A Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

<sup>10</sup> Rheoliad 32ZD(5), RPR 2001.

<sup>11</sup> Adran 9E(4), Deddf 2013

<sup>12</sup> Rheoliad 32ZE(6), RPR 2001.

## Olrhain diffyg ymateb gan unigolion na all wneud 'datganiad o wirionedd'

1.24 Fel rhan o gyfrifoldeb y Swyddog Cofrestru Etholiadol i benderfynu ar geisiadau cofrestru, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol benderfynu p'un a yw'r gofynion statudol ar gyfer cais, gan gynnwys sut y gellir ei wneud a bod y wybodaeth y mae'n rhaid iddo ei gynnwys, yn cael eu bodloni. Rhaid i gais cyffredin i gofrestru gynnwys datganiad bod cynnwys y cais yn wir (yn ymarferol, ar y ffurflen bapur, bydd hyn angen llofnod neu o leiaf farc ar y ffurflen sy'n dangos eu bod wedi gwneud y datganiad, er gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol dderbyn datganiad a wnaed mewn ffordd arall (er enghraifft dros y ffôn neu'n bersonol) cyn belled â'u bod yn fodlon bod y datganiad yn cael ei wneud gan yr ymgeisydd ac yn ddilys a gwir).

1.25 Ceir amgylchiadau pryd y bydd Swyddog Cofrestru Etholiadol yn derbyn gwybodaeth gan drydydd parti (e.e. gofalwr, ffrind neu berthynas i'r etholwr posibl) sy'n awgrymu bod rhywun heb alluedd meddyliol i ddeall y broses gofrestru a/neu i wneud datganiad o wirionedd<sup>13</sup>. Mater i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yw penderfynu, yn seiliedig ar amgylchiadau unigol, p'un a fyddant yn derbyn yr asesiad gan berson (neu bersonau) bod etholwr posibl heb alluedd meddyliol i allu gwneud cais i gofrestru (gan gynnwys y datganiad sy'n ofynnol). Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol y pŵer i fynnu gwybodaeth gan unrhyw berson at ddibenion cynnal y gofrestr, a gallwch ddefnyddio'r pŵer hwn i gael gwybodaeth (megis gwirio cofnodion eraill neu gysylltu â'r person a ddarparodd y wybodaeth) i'ch helpu i benderfynu a ydych am dderbyn yr asesiad.

1.26 Yn ymarferol, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cymryd i ystyriaeth y materion sensitif a all godi ynghylch materion fel galluedd meddyliol. Yn gyfreithiol, mae'n rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fynd trwy'r camau gofynnol (nodiadau atgoffa/ymweliad personol) os na cheir ymateb i wahoddiad i gofrestru (oni bai eu bod eu bod yn fodlon nad yw'r person â hawl i gael ei gofrestru, neu, ei fod wedi ei gofrestru mewn cyfeiriad gwahanol). Fodd bynnag, mewn achosion lle nad yw unigolyn yn meddu ar alluedd meddyliol, gallai'r llythyrau atgoffa gyda'u bygythiad o ddirwy ac ymweliad personol i annog cofrestru beri gofid i'r unigolyn a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

1.27 Er enghraifft, lle mae gwahoddiad i gofrestru/ffurflen gais yn cael ei dychwelyd wedi'i marcio i ddangos bod y person a wahoddwyd heb y galluedd meddyliol i gofrestru, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud ymholiadau pellach ac egluro pwrpas cofrestru a'r cymorth y gellir ei roi i gynorthwyo'r person wneud cais i gofrestru (er enghraifft, cymryd gwybodaeth yn bersonol neu dros y ffôn – gan ddibynnu ar yr opsiynau a gynigir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol – neu'r cais yn cael ei wneud gan berson sydd â phŵer atwrnai priodol).

1.28 Os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon nad yw'r person yn gallu cofrestru – h.y. nid oes gan y person y galluedd meddyliol ac ni fydd ei gyflwr yn gwella neu ei fod yn gyflwr dirywiol - bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol

---

<sup>13</sup> Fel sy'n ofynnol gan Reoliad 26(1)(g) o RPR 2001 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Disgrifiad o Gofrestrau Etholiadol a Diwygiadau) 2013).

ystyried a yw'n briodol, gan ystyried yr holl amgylchiadau penodol, parhau â'r prosesau olrhain ar yr adeg honno.

1.29 Dylent hefyd gofnodi a ydynt wedi derbyn asesiad y person hwnnw a p'un a yw eu hanalluedd yn debygol o fod yn barhaol neu a all amrywio. Mae'n rhesymol i Swyddog Cofrestru Etholiadol gymryd yn ganiataol y bydd etholwyr posibl sydd â chyflwr dirywiol ac sydd heb alluedd meddyliol yn parhau i fod felly yn y dyfodol. Fodd bynnag, lle gall cyflwr rhywun wella, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gofnodi'r wybodaeth hon, i'w alluogi i olrhain y mater yn ddiweddarach.

1.30 Rhaid i unrhyw benderfyniadau o'r fath gael eu cymryd ar sail achos wrth achos, a rhaid eu cofnodi'n llawn. Ym mhob achos, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau eu bod yn cadw trywydd archwilio o'r cyfathrebiadau a gawsant gydag unigolyn (neu unigolion) am ddiffyg galluedd meddyliol yr etholwr posibl.

## Senarios

### Senario 1

Mae Gwahoddiad i Gofrestru a ffurflen gais a anfonwyd at etholwr posib wedi cael eu dychwelyd heb eu cwblhau gan ei gŵr gyda'r sylw canlynol: **"Mae fy ngwraig yn dioddef o glefyd Alzheimer ac wedi'i chyfyngu'n gyfan gwbl i'w gwely, ffaith y gellir ei wirio gan Dr ...."**

1.31 Bydd angen i chi ystyried ym mhob achos unigol a fyddwch yn derbyn asesiad bod etholwr posibl heb alluedd meddyliol, ac felly nad yw'n gallu gwneud cais i gofrestru. Yn yr achos hwn, dylech gysylltu â'r gŵr i esbonio diben cofrestru a'r cymorth y gellir ei roi i gynorthwyo cofrestru. Gallai hefyd gael pŵer atwrnai ac os felly gallai wneud y cais ar ran ei wraig. Dylech hefyd ymchwilio'n sensitif i wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen a ddychwelwyd, a cheisio sicrhau p'un a yw'r diffyg galluedd meddyliol yn barhaol ynteu a yw'n amrywio.

1.32 Dylech sicrhau eich bod yn cadw trywydd archwilio o'r cyfathrebiadau sydd gennych, a hefyd dogfennu p'un a ydych wedi derbyn asesiad y person, a p'un a yw'r analluedd yn debygol o fod yn barhaol neu amrywio.

1.33 Gan ddibynnu ar eich asesiad a'r amgylchiadau, gallech naill ai gefnogi'r gŵr i helpu ei wraig gofrestru (neu i wneud y cais ar ei rhan pe byddai ganddo bŵer atwrnai priodol), neu ystyried a yw'n briodol rhoi'r gorau i'r prosesau olrhain. Dylech hefyd ystyried a fyddai'n briodol adolygu eich penderfyniad yn nes ymlaen.

### Senario 2

Mae ffurflen gais a Gwahoddiad i Gofrestru a anfonwyd at etholwr posib wedi eu dychwelyd wedi'u cwblhau gyda'r sylw canlynol **"Llofnodwyd a chwblhawyd gan (rhiant). Ni all D gwblhau'n annibynnol "**.

1.34 Gall person gynorthwyo person arall i gwblhau'r ffurflen gofrestru ar yr amod bod yr ymgeisydd ei hun yn gwneud y datganiad o wirionedd. Fodd bynnag, yn yr



achos hwn, mae'r rhiant yn amlwg wedi llofnodi'r ffurflen ar ran yr ymgeisydd, ac ni ellir ei derbyn.

1.35 Dylid cysylltu â'r ymgeisydd (neu ei riant) i esbonio hyn a dweud wrthynt mai dim ond yr ymgeisydd neu berson(au) sydd â phŵer priodol all wneud y datganiad o wirionedd.

1.36 Os yw'r cais wedi cael ei wneud ar-lein, gall y rhiant gynorthwyo'r ymgeisydd drwy wneud y teipio ar eu rhan, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn bresennol ac yn gallu cyfathrebu bod y wybodaeth a roddwyd ar y cais yn wir. Yn achos ffurflen gais ar bapur, byddai'n rhaid i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflen eu hunain, neu wneud eu marc arferol eu hunain; fodd bynnag gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol dderbyn datganiad a wnaed mewn ffordd arall (er enghraifft dros y ffôn neu'n bersonol) cyn belled a'u bod yn fodlon bod y datganiad yn cael ei wneud gan yr ymgeisydd ac yn ddilys a gwir. Fel arall, os oes rhywun gyda phŵer atwrnai priodol, gallai'r person hwnnw lofnodi'r datganiad.

### **Senario 3**

Mae ffurflen gais a Gwahoddiad i Gofresu a anfonwyd at etholwr posib wedi eu dychwelyd wedi'u cwblhau ac wedi ei **lofnodi gan yr etholwr a gyda llofnod ategol gan weithiwr cefnogol.**

1.37 Er bod yr etholwr wedi cael cymorth i lenwi'r ffurflen, mae'n amlwg ei fod wedi'i llofnodi. Gall pobl gael cymorth i gofrestru, ar yr amod bod y datganiad o wirionedd yn cael ei wneud gan yr ymgeisydd ei hun. Felly, byddai'r cais hwn yn dderbyniol, a dylech ei brosesu yn y ffordd arferol.

### **Senario 4**

Mae Mrs X yn 100, yn dioddef o ddementia ac wedi colli ei golwg/ei chlyw. Mae hi'n byw mewn gofal preswyl ac mae ei merch yn ymweld â hi'n aml ac yn ymdrin â'i busnes, ac mae ganddi bŵer atwrnai parhaus. Derbyniodd Mrs X ITR a ffurflen gais. Mae ei merch yn gofyn: **"A alla'i gwblhau'r ffurflen ar ran fy mam? Rwy'n poeni am y posibilrwydd o ddirwy. "**

1.38 Os yw etholwr posibl wedi rhoi pŵer atwrnai i berson, gall y person hwnnw lenwi a llofnodi'r ffurflen gofrestru drostynt. Dylech fod yn fodlon bod y person sy'n llofnodi'r ffurflen â phŵer atwrnai sydd yn ddigon eang i gynnwys gwneud cais am gofrestru, a dylech ofyn am gael gweld y dogfennau neu gopi ardystiedig os ydych yn ystyried bod hynny'n briodol. Yn amodol ar hyn, byddai ffurflen gofrestru wedi'i llofnodi gan berson sydd â phŵer atwrnai yn dderbyniol, a dylid ei phrosesu yn y ffordd arferol.